**ADRODDIAD I'R CABINET**
07.03.2017

**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

**Pwnc: Cyflenwadau dŵr manddaliadau**

**Swyddog cyswllt: Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol**

---

**<u>Y penderfyniad a geisir</u>**

Cyflawni'r gwaith uwchraddio cyflenwadau dŵr preifat mewn manddaliadau ar gost o hyd at £400,000 gan benderfynu ar ba ddull i'w ddefnyddio ar gyfer ei ariannu o'r 2 ddewis sydd ar gael wrth sefydlu Cynllun Rheoli Asedau newydd y Cyngor.

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol

---

**<u>Cefndir</u>**

1. Mae 16 o'r 42 o fanddaliadau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor wedi eu lleoli mewn ardaloedd anghysbell, filltiroedd lawer o brif gyflenwadau dwr cyhoeddus. Mae preswylwyr y 16 daliad yma felly'n derbyn eu dŵr o gyflenwadau naturiol cyfagos neu drwy gasglu dŵr o'r tir.

2. Yn amlwg mae'n rhaid i gyflenwadau dŵr yfed naturiol fel hyn fod yn ddiogel a chyfarfod safonau penodol. Y Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 2009 sydd yn gosod y safonau hylendid disgwyliadwy.

3. Yn unol â'r gofynion yn dilyn cyflwyno'r Rheoliadau newydd yn 2009 gwnaethpwyd y cylch cyntaf o brofion hylendid dwr statudol a bu'n rhaid buddsoddi mewn systemau puro uwchfioled (UV) ym mhob daliad bryd hynny.

4. Mae'r Rheoliadau yn gosod yr angen i brofi ansawdd y dŵr bob 5 mlynedd ac felly mae'r ail gylch bellach wedi eu gorffen. Er bod y systemau UV yn parhau i wneud eu gwaith, ymddengys erbyn hyn fod ffynhonnell neu darddiad y dŵr ei hun mewn cyflwr gwael ac nad yw'r systemau UV yn gallu puro'r dŵr yn ddigon da. Mae'r

tanciau tanddaearol sy’n dal y dŵr hefyd wedi cyrraedd diwedd eu hoes mewn sawl lleoliad.

5. Gan nad oes modd cysylltu’r daliadau hyn i gyflenwadau cyhoeddus (oherwydd eu lleoliad), does dim dewis bellach ond adnewyddu’r ffynonellau dŵr naturiol.

6. Ni fyddwn yn gwybod y gwir gost o gywiro’r sefyllfa yn ei chyfanrwydd hyd nes y byddwn wedi gallu ymchwilio i ffynhonnell dŵr posib ar gyfer pob daliad unigol. Mae sawl opsiwn posib ac mae angen asesu costau'r opsiynau hyn yn drylwyr er mwyn gallu darganfod pa opsiwn sy’n cynnig y gwerth gorau ym mhob lleoliad.

7. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon cychwynnol ein harbenigwyr yn nodi fod y gost i uwchraddio’r systemau hyn hyd at £400,000.

**<u>Ariannu’r gwaith</u>**

8. Nid oes cyllideb gan y Gwasanaeth Eiddo ar gyfer gwaith fel hyn na ellir ei ragweld. Nid oedd y Rheoliadau yn bodoli adeg sefydlu Cynllun Rheoli Asedau’r Cyngor yn 2008 ac oherwydd bod y systemau hyn o dan y ddaear nid oes modd gweld eu cyflwr heb fynd i gynnal archwiliad pwrpasol manwl.

9. Bydd gofyn i’r Cyngor felly roi ystyriaeth i ddau opsiwn o ran cyllido’r gwaith hwn. Gellir blaenoriaethu defnyddio cyfalaf y Cyngor gan dderbyn fod y mater yma o flaenoriaeth uwch na galwadau eraill sydd ar ein cyllidebau cyfalaf. Opsiwn arall yw adnabod cyfleoedd i greu incwm cyfalaf o fewn y stad manddaliadau ei hun.

**10.** Bydd angen gwaith pellach i asesu’r holl ofynion cyfalaf yn ein Cynllun Asedau newydd cyn gallu rhoi ystyriaeth lawn i’r opsiynau hyn ac felly mae hi’n gynamserol i ddod i gasgliad rhesymegol er fod yr angen i gyflawni’r gwaith yn amlwg. Mae’n bosib y bydd yr ateb terfynol yn gyfuniad o’r ddau.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
“Mae’n amlwg bod y gwariant hwn yn rhywbeth sydd angen digwydd ac mae dewisiadau wedi eu hamlygu o ran ei ariannu. Yn amlwg, mae angen gwaith pellach cyn penderfynu ar yr union ffynhonnell ariannu ond bydd hynny’n digwydd dros y misoedd nesaf.”

**Y Swyddog Monitro:**

Fe amlygir yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adroddiad yma a'r oblygiadau posib sydd yn golygu na ellir oedi cyn gweithredu. Mae'r risgiau i'r awdurdod o beidio symud ymlaen i gyfarch hyn yn lled amlwg o'r adroddiad. Rhoddaf unrhyw arweiniad pellach angenrheidiol yn y cyfarfod.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n argyhoeddedig fod dim dewis heblaw gwario er mwyn asesu a chyflawni'r gwaith i sicrhau cyflenwad dŵr diogel. Yn arferol, byddwn wedi mynnu adnabod ffynhonnell benodol i ariannu'r gwariant cyn ymrwymo iddo, ond fel eithriad yn yr amgylchiadau arbennig cyfredol, rwy'n gytûn gellid ei danysgrifennu am y tro o'r 2 ddewis amlygir yn yr adroddiad. Cofier roedd rhan 9 o f'adroddiad ar Gyllideb 2017/18 i'r Cabinet 14 Chwefror yn nodi fod adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau cyfredol eisoes ar droed, a bwriedir llunio'r rhaglen gyfalaf newydd, gydag ychwanegiadau iddi yn sgil yr adolygiad hynny. Bydd angen dewis os, neu faint, i'w adnabod drwy greu incwm o'r stad manddaliadau wrth benderfynu ar y Strategaeth Asedau yn yr haf.

**Atodiadau**